## Cofnodion a gymeradwywyd
## Cyfarfod Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr
## A gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2020, drwy gyfrwng Timau

Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol

| | |
|---|---|
| Mr R Davies (RD) | Rheolwr Grŵp Strategaeth Busnes a Pherfformiad |
| Mrs D Davies (DD) | Prif Swyddog, Gwybodaeth a Chymorth i Ddysgwyr |

Cynrychiolwyr Ysgolion

| | |
|---|---|
| Mr J Tarran (JT) , | Pennaeth, Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru |
| Mrs S Jayne (SJ) | Pennaeth, Ysgol Gymraeg Bro Ogwr |
| Mrs K John (KJ) | Pennaeth, Ysgol Gynradd Bracla |
| Mr J Evans (JE) | Pennaeth, Ysgol Heronsbridge |

Cynrychiolydd Llywodraethwyr

| | |
|---|---|
| Mr W Bond (WB) | Ysgol Gynradd Croesty |

Hefyd yn bresennol yn y cyfarfod

| | |
|---|---|
| Ms C Christy (CC) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |

### 1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mr A Slade, Pennaeth, Ysgol Gyfun Porthcawl a'r Cynghorydd Dr C Smith.

Nodwyd nad oedd Mrs A Keller bellach yn bennaeth Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath ac y byddai'r aelodau'n ystyried aelodaeth y fforwm yn y cyfarfod nesaf.

Diolchodd RD i'r aelodau oedd yn bresennol am ddod i'r cyfarfod rhithwir.

### 2. Ethol cadeirydd ac is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2020-2021.

Cynigiwyd RD a JT fel Cadeirydd ac Is-Gadeirydd. Cymeradwywyd y cynnig gan holl aelodau'r fforwm oedd yn bresennol.

## 3. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2020 a materion oedd yn codi

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir.

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

## 4. Polisi Derbyn i Ysgolion Drafft 2022-2023

Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i'r newid arfaethedig y manylwyd arno yn y polisi drafft.

Cymeradwywyd yr holl newidiadau a gynigiwyd i adlewyrchu'r newidiadau angenrheidiol mewn blynyddoedd a dyddiadau academaidd.

Cymeradwywyd yr holl newidiadau a gynigiwyd gyda'r nod o ddarparu eglurder ychwanegol, ac nid unrhyw newid gwirioneddol mewn polisi nac arfer.

<u>Ceisiadau mewn perthynas â phlant tramor a phlant y DU sy'n byw dramor</u>

Nododd yr Aelodau'r cyngor cyfreithiol y byddai p'un a fyddai angen unrhyw newidiadau i ofynion penodol mewn perthynas â cheisiadau o'r fath yn dibynnu ar p'un a fyddai'r DU yn gadael yr UE ar 31 Rhagfyr 2020 gyda chytundeb neu heb gytundeb. Y cyngor cyfreithiol presennol oedd y gallai geiriad yr adran hon o'r polisi ganiatáu'n ddigonol ar gyfer unrhyw sefyllfa yn y dyfodol.

<u>Dyddiad cau ar gyfer y rownd derbyniadau meithrin rhan-amser</u>

Dywedodd DD wrth yr aelodau fod llawer o rieni/gofalwyr oedd wedi cyflwyno ceisiadau hwyr am leoedd meithrin rhan-amser wedi mynegi mai'r rheswm dros eu cyflwyno'n hwyr oedd bod y rownd derbyn wedi cau'n rhy gynnar o gymharu â dyddiad dechrau'r lleoedd. Yn unol â hynny, cynigiodd yr awdurdod lleol ymestyn dyddiad cau'r rownd derbyniadau meithrin rhan-amser o fis Mawrth i ddiwedd mis Gorffennaf 2022. Cymeradwywyd y cynnig gan yr aelodau.

<u>Meini prawf gordanysgrifio</u>

Tynnodd DD sylw at y ffaith fod yn rhaid i blant â datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) sy'n trosglwyddo i Flwyddyn 7 mewn ysgol uwchradd ym mis Medi, gael datganiad AAA diwygiedig yn enwi'r lleoliad uwchradd erbyn y 15$^{fed}$ o Chwefror blaenorol. Pe na bai'r plant hyn, yr oedd eu lleoliad penodol mewn ysgol brif ffrwd, yn derbyn y sylw dyledus wrth ddyrannu lleoedd ar gyfer y cylch derbyn, gallai olygu'n awtomatig y byddai'n rhaid derbyn y plant hyn yn ychwanegol at y nifer derbyn cyhoeddedig pan oedd gormod o alw am leoedd. Roedd yr awdurdod lleol, felly, yn cynnig y dylid ymestyn maen prawf gordanysgrifio 1 i ddarparu ar gyfer y plant hyn. Cymeradwywyd y cynnig gan aelodau gyda theilyngdod i'r newid gael ei adlewyrchu yn y meini prawf gordanysgrifio ar gyfer pob rownd derbyn.

Tynnodd DD sylw at y ffaith fod plant sy'n bodloni'r maen prawf gordanysgrifio meddygol/seicolegol/cymdeithasol (maen prawf 4) ac sy'n bodloni'r gofynion tystiolaeth cysylltiedig, ond sy'n byw yn y dalgylch, yn cael eu hystyried yn awtomatig dan faen prawf gordanysgrifio 2, neu 3 os yw'n berthnasol. Yn unol â hynny, nid oedd y maen prawf gordanysgrifio meddygol / seicolegol / cymdeithasol yn berthnasol yn ymarferol ond i blant a oedd yn byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol y gofynnwyd amdani. Mewn sefyllfa lle mae lefel y gor-alw yn gymaint fel bod yn rhaid i'r awdurdod lleol wrthod ceisiadau o fewn y dalgylch, byddai plentyn sy'n bodloni maen prawf 4 yn cael ei wrthod. Felly, roedd yr awdurdod lleol yn cynnig, os yw'r amodau tystiolaeth angenrheidiol yn cael eu bodloni, y dylai plant o'r fath gael blaenoriaeth ar ôl plant sy'n derbyn gofal, plant a oedd yn arfer derbyn gofal a phlant â datganiad ar gyfer pob rownd derbyn, h.y. dylai hyn symud i fod yn faen prawf 2. Cymeradwywyd y cynnig gan yr aelodau.

Tynnodd DD sylw at y ffaith fod y meini prawf gordanysgrifio ym mholisïau 2020-2021 a 2021-2022 ar gyfer lleoedd meithrin rhan-amser yn rhoi blaenoriaeth i blant o fewn y dalgylch ar gyfer mynediad mis Ebrill dros blant all-ddalgylch oedd yn gymwys ar gyfer mynediad mis Ionawr. Fodd bynnag, roedd yr awdurdod lleol yn ddiweddar wedi gorffen dyrannu lleoedd ar gyfer Ionawr ac Ebrill 2021 ac roedd rhai ysgolion wedi mynegi pryderon ynghylch goblygiadau'r blaenoriaethu, o ystyried eu bod yn parhau i ddarganfod nad yw llawer o'r plant y dyrannwyd lleoedd iddynt ar gyfer mis Ebrill yn cymryd eu lle. Gellir gwrthod lle i blant sy'n gymwys ar gyfer mynediad ym mis Ionawr yn rhinwedd y flaenoriaeth hon oherwydd bod lleoedd yn cael eu dyrannu i blant sy'n dechrau ym mis Ebrill, nad ydynt wedyn yn dod i gymryd y lle. Mae gan ddigwyddiadau o'r fath oblygiadau ariannol i ysgol hefyd. Roedd yr awdurdod lleol, felly, yn cynnig dychwelyd i roi blaenoriaeth i holl geisiadau mis Ionawr dros holl geisiadau mis Ebrill, waeth beth fo'r sefyllfa o fewn/allan o'r dalgylch. Cymeradwywyd y cynnig gan yr aelodau a nodwyd y byddai newidiadau o ganlyniad i drefn y meini prawf gordanysgrifio llawn ar gyfer lleoedd meithrin rhan amser.

<u>Ceisiadau ar gyfer derbyn yn ystod y flwyddyn/symud ysgol</u>

O ran ceisiadau am dderbyniad yn ystod y flwyddyn neu symud ysgol, tynnodd DD sylw at y ffaith mai'r polisi dros y ddwy flynedd ddiwethaf oedd os oedd lle yn y grŵp blwyddyn perthnasol yn yr ysgol y gofynnwyd amdani ond nad oedd y cais yn cael ei wneud o ganlyniad i newid ym mhreswylfa arferol y plentyn, neu os oedd yr amgylchiadau'n gyfryw fel bod yr awdurdod lleol yn penderfynu nad oedd angen symud ysgol ar unwaith, bod y derbyniad yn cael ei ohirio tan ddechrau'r tymor ysgol canlynol. Caniateir derbyniadau gohiriedig o dan y cod statudol ond tan ddwy flynedd yn ôl nid oedd yn bolisi gan Ben-y-bont ar Ogwr ohirio unrhyw dderbyniadau. Yr ysgolion ofynnodd am y newid i'r polisi er mwyn tarfu gyn lleied â phosibl ar addysg y plentyn a'r plant eraill yn yr ysgol.

Eglurodd DD fod derbyniadau gohiriedig yn hynod o amhoblogaidd gyda rhieni/gofalwyr a bod llawer yn dewis protestio yn erbyn cadw eu plant allan o'r ysgol hyd nes y gallant ddechrau yn yr ysgol newydd. Mae hyn yn amlwg yn niweidiol i addysg y plant, yn enwedig yng ngoleuni'r holl amser ysgol a gollwyd oherwydd

pandemig Covid. At hynny, mae nifer o ysgolion fel mater o drefn yn mynegi dewis i'r plant gael cychwyn yn yr ysgol heb ohiriad. Gofynnodd DD am gael trafod newid y polisi.

Ar ôl trafodaeth, cynigiodd yr aelodau y dylid parhau â'r dull presennol o weithredu, ar yr amod y byddai'r awdurdod lleol, pe bai'r ysgol bresennol a'r ysgol y gofynnwyd amdani yn y dyfodol wedi hynny'n dod i gytundeb ar y cyd i'r trosglwyddiad ddigwydd yn ddi-oed, ar ôl cael gwybod yn diwygio'r camau gweithredu yn unol â hynny. Tynnodd DD sylw at y ffaith y gallai'r cynnig arwain at honiadau nad oedd y dull yn gyson ac yn deg i bawb; fodd bynnag, yn dilyn trafodaeth bellach, cadarnhaodd yr aelodau eu bod yn cymeradwyo bod y cynnig yn cael ei adlewyrchu ym mholisi 2022-2023.

## 5. Polisïau derbyn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir

Esboniodd DD fod y Cod statudol Derbyn i Ysgolion yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau derbyn, nad ydynt yn awdurdodau lleol, roi copi o'r trefniadau derbyn a benderfynwyd ganddynt i'w hawdurdod lleol, ac erbyn 1 Mehefin fan bellaf. Pwrpas hyn yw galluogi awdurdodau lleol i gydymffurfio â'u dyletswydd statudol i gyhoeddi'r trefniadau derbyn.

Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn cael rhai anawsterau i gaffael trefniadau derbyn ysgrifenedig yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Ymhellach, ar ôl eu derbyn, nodwyd nad yw'r dogfennau, mewn rhai achosion, yn cwrdd â gofynion y cod.

Tynnodd RD a DD sylw at y ffaith y gellir ceisio cyngor gan yr awdurdod lleol os bydd unrhyw ymholiadau ynghylch gofynion derbyn. Cytunodd JT i godi'r mater gyda phenaethiaid yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.

## 6.Data derbyniadau

Bu'r aelodau'n ystyried y data ar gylchoedd derbyn 2020-2021 a derbyniadau/ trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn 2019-2020, oedd yn cwmpasu'r ysgolion hynny y mae'r awdurdod lleol yn awdurdod derbyn ar eu cyfer.

Pwyntiau penodol i'w nodi a'u trafod oedd y canlynol:

- Roedd y data ar gyfer rowndiau derbyn 2020-2021 yn ymwneud yn unig â cheisiadau ar amser a cheisiadau hwyr a dderbyniwyd cyn 1 Medi 2020. Mae pob cais a dderbynnir ar neu ar ôl 1 Medi bob blwyddyn yn dod yn geisiadau derbyn o fewn y flwyddyn.
- Mae canrannau sylweddol o geisiadau ar gyfer pob rownd derbyn yn parhau i gael eu cyflwyno'n hwyr.
- Mae ceisiadau yn cael eu cyflwyno fwyfwy ar-lein. Roedd y ganran ar gyfer yr holl rowndiau derbyn dros 90%, gyda'r ceisiadau ar-lein ar gyfer y cylchoedd meithrin rhan-amser gyda'i gilydd yn 98.3%.

- Ar draws yr holl gylchoedd derbyn, ni fynegodd canran sylweddol o rieni/gofalwyr ddewis cyntaf ar gyfer ysgol eu dalgylch.
- Ar draws yr holl gylchoedd derbyn, ni chofnododd canran sylweddol o rieni/gofalwyr ysgol ail ddewis, er gwaethaf y goblygiadau posibl.
- Nodwyd y gor-alw mewn rhai ysgolion. Er gwaethaf hyn, roedd mwyafrif helaeth y dewisiadau cyntaf wedi'u bodloni.
- Roedd capasiti sylweddol heb ei lenwi ar draws y fwrdeistref.
- Yn 2019-2020, y ceisiadau derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn oherwydd symud tŷ oedd y mwyaf cyffredin eto gydag oddeutu 40% o’r holl geisiadau yn ymwneud â phlant yn symud i mewn i’r sir.
- Er gwaethaf cau ysgolion am gyfnod helaeth oherwydd y cyfnod clo, dim ond 4% yn is na 2018-2019 oedd ceisiadau derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn.
- Parhaodd nifer yr apeliadau derbyn a gofrestrwyd i fod yn uchel. Gan nad oedd y ddeddfwriaeth frys yng Nghymru wedi sicrhau unrhyw newidiadau o ran gofynion derbyn, roedd apeliadau derbyn wedi parhau drwy gydol y cyfnod clo, a thu hwnt, ond mewn fformat rhithwir.

## 7. Unrhyw Fater Arall

Pwysleisiodd RD nad oedd y ddeddfwriaeth frys yn ymwneud â Covid yng Nghymru wedi achosi unrhyw newidiadau o ran gofynion derbyn, oedd wedi bod yn heriol, ac yn debygol o barhau felly, o ystyried y gweithgareddau a’r pwysau ychwanegol sylweddol ar staff yn ymwneud â Covid.

## 8. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Ni chytunwyd ar ddyddiad penodol.

Diolchodd RD i bawb oedd yn bresennol am eu presenoldeb a'u cyfraniadau.